Prosiect Cydweithredol


Enw myfyriwr: Gwenan Lloyd
Rhif myfyriwr: 2204035
Enw cwrs: BA Perfformio
Enw modiwl: Prosiect Cydweithredol
Côd y modiwl: ADPB5010C
Dyddiad cyflwyno: 15/12/23

Deunydd Creadigol


Dod i adnabod ein gilydd fel grŵp drwy rannu ffeithiau personol;
10 ffaith wahanol: Casáu cathod, dwi'n efaill, dwi'n gallu sgïo, nofwraig cryf, mae gen i geffyl, dwi wedi bod I Alabama, dwi'n caru olives, casáu nadroedd, casáu pry cop,
10 peth sy'n bwysig i mi: Teulu, natur, cariad, parch, tegwch, cerddoriaeth, iechyd meddwl, bwyd, adref a Chymru.

Trafod a chreu rheolau dosbarth
-Rhoi cynnig ar bopeth.
-I ranni beth bynnag rydym yn gyfforddus hefo.
-Gadael perffeithrwydd tu allan y drws.
-Cefnogi ein gilydd.

Ysgrifennu tudalennau 'dyddlyfr' am sut dwi'n teimlo/ yr hyn dwi wedi bod yn ei wneud.
-Dim pwysau ac yn profi ein bod yn gallu creu monolog yn rhwydd drwy ysgrifennu yn y person cyntaf:



Dwi di blino lân. Nesi gysgu well nithiwr (son corrup). Crazy; Ma di cros efo fi am 4 nights in a rot... Ond oedd o yn nes cal y gwely yn â i fi fy hun neithiwr. Beched ma mor cwl; dod o gweddill bwyd fo i fi o blode oedd yn £8. Daym. Dwi am fethu fo dros y 10 diwrnod nesa ma de. Ond dwin edrych mlaen i fo ddod i uchi new i fi find i lle fo wythnos nesa. Cobeithio neith o ddod y tren yn iawn neddiw.
Dwi yn y cba mode yre heddiw! wythnos yma, dwin caru uni and mae hefyd yn cbso drwining.
Fimin bod mam neb ffonio fin nôn efo. Dwi di mio ffonio hi 4 gwaith and di dod neb ateb fi, tra ma An yn ffio mlen hi bob reason. Swn i ddim isio hupc dwiath de, and safe yn nes oi fysc hin jongo bach mwy o dwi'ddarddeg/ elfenth.
Dwi angen dysgu pethau Urdd asap
Dwi angen dysgu monolog Hermia at fory.
Dwi angen ffonio Nain



Odd y bagel nesi gal bark ma yn lyfli.
Dal yn gweld on helor nath ni weld (Vitarcus) doctor who d llun.
Pocni bach am jysd uni, gorfod gweld ffrindie gore fi adre yn mwyhaw.
Uch ymarfer efo 3 ½ ur heddiw; scared.
Angen gwylio YouTube vid.
Jobs bod dod ddim yn smokio gymaint.
Teimlo fel bo fi wedi diffyg i ffwrdd o ffrindie uni ers bod efo car and dwi yn hapusach nwan so I guess its okay?
Dwi NI angen ffindio gericke letter box acom fi.
Buzzing i find ar hols efo Ker. Gonna be ni good.
Dreadio weekend ma chydig; cumfod yn drwining. Glan thp i bark beds; NJs thanks. A gorfod dod nol jyst er mwyn cael 1 diwrnod yn uni = painless sem. Mor annoying.
4 awr ar bws. Sgenai ddim even bag, i ddal y cwtsi. Angen newid wach dillad gwyn hena. Kiki isio treatio

Tasg gadair boeth:
Pawb i drafod am rywbeth maent yn angerddol amdano am funud gyfan o flaen y dosbarth heb seibiant. Trafodais i am y ffaith fod yna gymaint o bobl yn ddigartref yng Nghaerdydd. Dyma dasg wnaeth ddod yn hawdd i mi wrth i mi fod mor angerddol am y pwnc. Cefais fy nghlodfori am hyn, gydag ambell ddisgybl yn dweud fod emosiwn i'w glywed yn fy llais.

Cael gwybod ein bod yn mynd i ysgrifennu sioe gerdd goemdi Gymraeg fel grŵp = teimlo'n nerfus ond hefyd yn gyffrous.

Ysgrifennu Monologau

Y fonolog gyntaf i mi ysgrifennu- Monolog Janice:

¶
Haia Janice, How are you?° I've been better de babe. Ti'n cofio fin son am Robbie the other day? Ag oni'n deud bod o am fynd a fi am 'suprise date'? Nei di'm credu lle natho fynd a fi. I'r fucking Sdeddfod. As in you know y festival ne efo hen bobl n gwisgo° bed sheets gwyn a glas ar llwyfan?..O diom bwys. Anyway, t'was my idea of hell. Nath o neud i fi eistedd yn y pafiliwn trwy'r pnawn am 5 awr chys bod chwaer o'n cystadlu efo'r côr. Odd ne 17 cor. 17. Nesi orfod 'wotcho'r hole lot yn canu'r un caneuon 17 o fkin weithie. Ag ar ôl hyne, Odd rhaid i ni aros am y result!! A the weirdest fkin shit happend yn y pafiliwn. Yanno, enw lle ma'r llwyfan de. Anyway, ma pawb oedd yn isde yne randomly'n dechre canu caneuon y competition côr. I wanted to kill my self. 1; Odd rhaid i fi eistedd yne'n awkwardly ddim yn gwbod y geirie tra bod pawb arall yn canu or galon. 2; Peth ola oni isio glywed oedd y caneuon ma eto ar ol clywed o 17 o fkin weithie in a trot yn barod. 3 - Odd yr hen ddynes odd yn eistedd drws nesa i fi yn abso tone deff ag oedd hi'n spittio dros y lle efo'i dannedd gosod hi'n dod allan bob dau funud. I leterally wanted to kill my self. So ye, shittest date ever., and safe to say, Fydd Robbie BYTH yn gweld fi eto.¶
¶

Ysgrifennais y fonolog yma gan ddefnyddio'r clip isod fel ysbrydoliaeth:


https://eur01.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A%2F%2Ftwitter.com%2FBBCWales%2Fstatus%2F1029053221925478401%3Flang%3Den-GB&data=05%7C01%7C2204035%40student.uwtsd.ac.uk%7Cabf0e6c81e154a06d7ca08db4afc7123%7C4e0f11f9046e45059cb8db2152311e21%7C0%7C0%7C638186220305576348%7CUnknown%7CTWFpbGZsb3d8eyJWIjoiMC4wLjAwMDAiLCJQIjoiV2luMzIiLCJBTiI6Ik1haWwiLCJXVCI6Mn0%3D%7C3000%7C%7C%7C&sdata=jewOvcOV1AvxkEoqCW%2BZbBK0yCI1Na1MzTXTZ%2B8b5HE%3D&reserved=0


Gwnes i ddim cynnwys dim un cyfarwyddyd llwyfan yn y fonolog uchod; llwyr anghofio! Dyma'r brif nodyn cefais gan fy narlithydd cyn i mi fynd ymlaen i ysgrifennu monolog arall.

Creu/ datblygu cymeriadau

Enghreifftiau o gymeriadau da yn fy marn i: Ted Lasso, Miranda, Cher (clueless), Fleabag.

Tasgau datblygu cymeriad:






Wrth i mi ddod i adnabod fy nghymeriad yn well caniateir i mi fedru bod yn fwy creadigol wrth ysgrifennu yn ogystal a bod yn fwy sicr o weithredoedd y cymeriad.

Fy ail fonolog- Beca Mai:

Drafft 1af



2il ddrafft

Monolog Beca Mai

Gorweddai Beca ar ei gwely yn 'scrolio' trwy Instagram ar ei ffôn. Mae ychydig o eiliadau yn mynd heibio cyn i 'post' diweddara Jacob ymddangos ar sgrîn y ffôn.

Waw. Mae o jysd mor fit. Y gwyneb bach del 'ne. Gwallt 'blonde' fflyffi. 'Biceps' a 'thighs' hiwj! A mae o'n 6'4. Ma bechgyn fel 'ma'n brin. Ma'n rhaid fi gal efo fo reit sydyn cyn i'r merched blwyddyn iau gael gafael arno fo. Be ydi'r idiom 'ne ma' hen bobl yn defnyddio eto?.. W, ia cynta' i'r felin nde! O, Fyse ni'n edrych mor dda efo'n gilydd. A plant, 'oh my gosh' mi fyse plant ni'n berffaith o 'good looking'. A fyse ni'n gallu byw yn hapus mewn tŷ bach gwyn yn yml y môr yn Sir Fôn. Waw, 'my Idea of Heaven'.

Shit! Mai bron yn wyth, rhaid fi ddechre ca'l yn barod! Dwi'n gorfod edrych yn stunning, 'uparently' ma' Jacob am fod yne.

Symudai Beca i eistedd yn yml ei 'dressing table'. Dechreuai roi colur ymlaen.

Shit! Dwi heb hyd yn oed ofyn i Mam os dwi'n ca'l mynd i barti Low heno eto. Neith hi 'no' wê adel fi, dwi fod yn adolygu i'r arholiad llafar Cymraeg sy' mewn pythefnos. Na sori dwi ddim yn gadel i Siwan a blincin Saunders Lewis i ddifetha'n siawns i o ga'l efo Jacob. Dwi'n mynd, be bynnag neith Mam ddeud.

'Beca...Beca' Gweiddai Mam o waelod y grisie.

Ia, be t'isio Mam?

'Dwi'n mynd allan am fwyd efo'r genod i Gaer, fydda'i ddim yn d'ôl adre tan yn hwyr. tua hanner nos mae'n siwr fydd hi. So dwi'n gadel ti 'in charge' o Math a'r ci. Peidiwch a ffruo, a cofia di i adolyg rwan, sgen t ddim rheswm i beidio cael marciau llawn yn yr arholiad llafar 'ma. Tra, Caru ti pwt'

Ia ia mi na'il i Mam, ta'ra, caru ti.

Yes, yes, yes, yes, yes, yes. Problem gone. Jacob 'I'm coming for you baby'.

Parha' Beca i roi colur ymlaen o flaen drych y 'dressing table'.

Haia Jacob, Gwenan dwi, dwi'n 'really' hoffi'r llun nes di roi' a'r Insta' heno 'ma.
Na, Na, fedraim deud hyne, fyddo'n meddwl bo' fi'n freak.

Hei, tin iawn? Dwi'n rili hoffi gwallt ti.

Hei, Ymm. O na dwi'n dda i ddim am hyn. Reit, don't panic Becs, 'you've got this', fydd rhaid i ti jysd gadel i sut ti'n edrych 'do the talking'.

Www 'lipstick' coch dwi angen.

Drwy ganolbwyntio rho Beca lipstick coch ar ei gwefusau a pawtio o flaen y drych.

Biwtiffyl. Reit, ymlaen i'r 'outfit'!


Buan iawn sylweddolais fod y darn uchod o waith ddim ‘cweit’ yn ‘fonolog’ gan fod yna ddeialog rhwng y ferch a’i Mam. Roedd hyn yn hawdd datrys; cwbl oedd angen i mi ei wneud oedd tynnu llinellau’r fam allan.


<u>Cymru a Chymreictod</u>


Cael gwybod mai Cymru a chymreictod yw ‘briff’ y sioe gerdd rydym am greu.

Creu mapiau meddwl sy’n ymwneud a’r themâu:


Map meddwl greais gyda Glain:








Dewis lleoliad ar gyfer ein sioe: Doedd dim angen meddwl dwywaith cyn penderfynu ar yr Eisteddfod fel lleoliad wrth iddo ganiatáu i’r holl gymeriadau rydym wedi’i greu i fod yn rhan o’r sioe.



Trafod y cymeriadau gwahanol sy'n mynychu'r Eisteddfod a chysylltu'r cymeriadau rydym wedi ei creu yn barod yn y categorïau 'stereotypes:



Monolog rhif 3: Mabli Wyn: Ciwio i fynd mewn i'r Eisteddfod.

Safai mabli yng nghiw yr Eisteddfod yn Llanelli yn aros i brynu tocyn i gael mewn i'r maes.

Gwisgai siwmper 'merch' Bwncath, gyda slogan 'fel hyn da ni fod' arno, siorts denim glas a converse coch ar ei thraed.

Oni'n gwbod ddylwn i fod wedi deffro'n gynt bore ma. Dwi mor wyrion! Fy hoff ddiwrnod o'r flwyddyn i fod, ond na, dwi'n styc mewn ciw 'ginormous' yn y glaw. Typical 'steddfod. Er weles i rioed ffasiwn beth o'r blaen. Dwi 'di bod yn ciwio am dros **chwarter awr** am docyn a dwi dal yn sefyll yn union yr un lle, heb symyd dim! Gwarthus. Bob blwyddyn ma'r steddfod ma'n cyflogi gweithwyr newydd, dim un flwyddyn dwi'n gweld yr un person tra'n prynu tocyn. Ella os fyse nhw'n cadw'r un pobl yn lle cyflogi stiwdans ma sy' ddim hanner call, mi fyse ne bach mwy o drefn yma! Oo tyrd o ne di giw, ma Bwncath yn canu mewn dwy awr. Nai grio os nai fethu nhw.

Estynai Mabli fap o'r Eisteddfod o boced ôl ei siorts.

Reit lle ma'r babell Maes B ma'...Yn ymyl y bar gwyrdd. Och, wrth gwrs 'i fod o'n ymyl y Bar Gwyrdd. Bob blincin blwyddyn. Ma'n rhaid bod cynllunydd y Sdeddfod yn alcoholic, ma pawb call yn gwbod se'm angen alcohol i fwynhau cerddoriaeth.

Edrychai Mabli ar ei oriawr.

Pum munud wedi deg. Awr a tri chwarter nes bod Bwncath yn neud set…Well i fi fynd yne'n syth i neud un siwr mod i'n cal lle yn y blaen ac yn cael gafael ar un or bean bags. Aaa dwi mor 'excited', dyma wir ydi uchafbwynt yr haf, 'chillio' ym mhabell Mae B yn grando ar gerddoriaeth 'osym' a edrych ar wynebau 'osym' bechgyn bandiau Cymru. Sgwni os fydd Eilidyr Glyn yn edrych yr un mor dda ag oedd o mis dwytha'n Theatr dre? Ohh o'r diwedd dwi bron ym mlaen y ciw!.. Ma'n siwr fydd o. Rhaid i mi neud yn siwr mod i'n cal i'w 'autograph'o tro yma!


Haia, ga i docyn diwrnod oedolyn ifanc plis?


Sori faint?! Deuddeg punt yn ddrytach na llynedd!


Mi na i, diolch yn fawr!


Rhannu atgofion, profiadau a gwybodaeth bersonol am yr Eisteddfod drwy greu tasg greadigol o orffen y brawddegau isod. Credaf wnaeth gwblhau'r dasg hon sbarduno syniadau ar gyfer creu plot ein sioe gerdd:


Yn ôl bob sôn:
Profiad personol:
Celwydd:
Ffaith:














:

Cysylltu'r cymeriadau a'r thema:

Beth yw 'Cymreictod' i'r cymeriadau:

Glenys a Nerys
Cymreictod = gymdeithas
Cymreictod yn gysur
Eisteddfod=Cyfrifoldeb, highlight y flwyddyn

Erin
Cymreictod yn cool
Isio =feindio caraiad?

Mam Daf
Cymreictod yn deulu
Yn gerddoriaeth
Eisteddfod efo bwyd da
Dod a teuluoedd at ei gilydd


Dyfrg
Cymreictod yn gymdeithas amaethyddol
Bod yn Gymraeg ddim jysd yn rhywun syn mynd ir eisteddfod- Mynd ir sioe
Eisteddfod ddim beth oedd o'n ddisgwyl

Linda
Cymreictod yn dalent
Eisteddfod rhan bwysig o ieuenctid plant cymru
Yn bwysig iddi hi
Eisteddfota'n cael ei pasio lawr cenheldaethau


Manon makeup
Eisteddfod yn gyflog

Bethan Jane
Cymrectod yn fraint. Agor gorwelion
Gallu byw eich breuddwyd yn y Gymraeg
Eisteddfod yn gyfrifoldeb


Penderfynu beth mae Mari'n dysgu gan bob cymeriad = Rhoi rheswm a phwrpas i bob cymeriad yn y sioe, gan ein gadael hefo neges glir ar ddiwedd y sioe= nad oes un ffordd i fod yn Gymraeg



Trafod siwrne Mari yn y sioe a'i phwysigrwydd:



(Vogler, 1998, tudalen 9)



A Hero's Journey.

1. Ordinary world:
- ~~ka~~ taking a character out of their ordinary world - must show the comparison between the ordinary world vs the new journey
2. Call to Adventure:
Inticing incident. What happens when we take the character out of the ordinary world - something happens thats out of the ordinary. Hero is presented with a challenge.
3. Refusal of the call:
Fear / expressing discomfort.

ORDEAL:

Pafiliwn ar y llyfan i'r wasg - clefydd ar goll

MENTOR:

Glenys a Nerys

ENEMY:

Linda

Allies:

Pawb arall

Creu golygfeydd ac ysgrifennu deialogau

Hanfodion creu golygfa lwyddiannus:

Pwy – pwy yw'r cymeriadau yn y golygfa?
Ble. – ble mae'r golyfa yn digwydd?
Beth – beth sy'n mynd ymlaen?
Pam – pam mae'r cymeriadau yn y lle yna heddiw/heno.
Beth mae'r cymeriad eisiau?

Deialog Dyfrig ac Angharad Mair:

Syniadau golygfa Angharad mair a Dyfrig

Angharad mair ar ganol ffilmio

Noswaith dda, dani yma bore ma.

Dont you know who I am?

Mari yn 'confused'

Ffarmwr, methu ffeindio'r gwartheg?

2il ddrafft

Can agoriadol

Dyfrig Huws

Drafft 1af:

Safai Dyfrig yng nganol faes yr eisteddfod yn edrych ar goll wedi drysun lan, methu deall sut bod y lle mor lan.

Gwisgai Dyfrig gap ffarmio am ei ben, gwisgai grys a gwasgod schoffel ar ei ben. Jeans glas sydd wedi 'fadio' a welis budur ar ei draed.

Dyf: Iesgob, ma'r lle ma lot mwy lan na'r sioe fawr. Lle andros ma'r heffrod ma? (Dywedodd i'w hun)

Dyf: Sgiws me del, da chi'n gwbo lle ma'r Bychod Hereford yma?

Angharad Mair: Sori, beth?

Dyf: O da chi'n gwbod yr heffrod swel brown a gwyn. Fy hoff fath o wartheg i chi gal dalld. Mae nhw'n biwcsiwr wir i chi.

Angharad: Tydw i ddim yn credu eu bod nhw ar y maes ma.

Dyf: Well am siom! Oherwydd eu bod nhw'n tarddu o Swydd Henffordd yn Ne-Orllewin Lloegr ma siwr ia... Ond na fo, dwi'm yn gweld bai arnyn nhw am wahardd pob dim i wneud hefo Lloegr yn y lle ma, ar ol pob dim ma'r Saeson yn gwneud i'n gwlad fach ni... Ia Duw. Da chi'm yn digwydd gwbod pa ffordd ma'r Defed Texel?

Angharad: Does dim anifeiliad yn yr Eisteddfod. Dwi'n meddwl eich bod chi wedi cymysgu. Cystadlu, diwylliant ac adloniat ydi esteddfodau. Dim rhyw ffars amaethyddol.

11/6/23

2il ddrafft:

Deialog Dyfrig ac Angharad Mair.

Safai angharad mair yn gwynebu'r gynulleidfa gyda meic yn ei llaw yn cyflwyno i'r camera.

Angharad mair: Fi sy'n ddigon lwcus o gael bod ar faes yr Eisteddfod sy'n llawn bwrlwm yn Llenelli heno ma, pawb yn edrych yn mlaen i weld dafydd lwan yn canu ar lwyfan y maes yma heno. A dwi'n ddigon lwcus i gael sgwrs hefo'r dyn ei hun, felly dawch nol atom ar ol y toriad.

Angharad yn gwenu am y ychydig eiliadau ar y camera. A wedi yn stopio gwenu yn syth.

Ymddangosai Dyfrig yng nganol faes yr eisteddfod yn edrych ar goll ac wedi drysu'n lân, methu deall sut bod y lle mor lân.

Gwisgai Dyfrig gap ffarmio ar ei ben, gwisgai grys a gwasgod schoffel, jeans glas sydd wedi 'ffadio' a welis budur ar ei draed.

Dyf: Iesgob, mai lot glanach yma na'r sioe fawr.

Saib (edmygu'r olygfa am chydig)

Reit, lle ma'r heffrod ma dwed?

Estynai dyfrig fap o'r maes allan o boced ôl ei drwsus. Edrycha'n ddryslyd ar y map.

Dyf: Sgiws me del, da chi'n gwbo lle ma'r bychod Hereford ma?

Angharad Mair: Sori, beth?

Dyf: O da chi'n gwbod yr heffrod swel brown a gwyn. Fy hoff fath o wartheg i chi gal dalld. Mae nhw'n biwcsiwr wir i chi.

Angharad: Ymmm..Naddo sori, ha ha ha. *(Dywedodd gan edrych ar ei thîm camerau wedi'i rhyfeddu)*

Dyf: Well am siom! Oherwydd eu bod nhw'n tarddu o Swydd Henffordd yn Ne-Orllewin Lloegr ma siwr ia… Ond na fo, dwi'm yn gweld bai arnyn nhw am wahardd pob dim i wneud hefo Lloegr yn y lle ma, ar ôl pob dim ma'r Saeson yn gwneud i'n gwlad fach ni… Ia Duw. Da chi'm yn digwydd gwbod pa ffordd ma'r Defed Texel ta?

Angharad: Does dim anifeiliad yn yr Eisteddfod ddyn. Dwi'n meddwl eich bod chi wedi drysu. Cystadlu, diwylliant ac adloniat ydi esteddfodau. Dim rhyw ffars amaethyddol.

Dyf: Ffars!? Wel yr hwch ddiymhongar. Dim anifeiliaid. Da' chi'n deutha fi bod 'ne ddim anifeiliaid o gwbl yr y lle ma?

Angharad: Na.

Dyf: O mam bach. O mam bach. O mam bach. (Panicio)

Angharad: Esgysodwch fi. Mae'n rhaid i mi fynd, dwi'n ffilmio mewn dau funud. Hwyl.

Dyf: Wel wir, pwy sa'n meddwl. Dim anifieiliaid mewn gwyl Gymreig. Y wlad mwyaf amaethyddol. Am blydi nuts. A finna di talu cocbris i ddod i mewn. Gwarthus.

Edrychai Dyfrig ar y Map Unwaith eto.

Lot o stondine gwahanol yma chware teg.
Maes B? Be andros di pwynt cal maes o fewn maes?

Merched y wawr. Ww ia, a'i i fane am bach o TLC gan Dilys a Brenda. Gawni weld os fydd nhw'n ffruo drostai heddiw fel odda nhw penwsos dwetha'n capal, hahaha!

Tisio fforc? Mi ydwi angen fforch wair newydd fel man digwydd. Iesgob ma 'freebies' fama lot gwell na rei'r sioe fawr!

Dechreua Dyfrig gerdded am stondin 'Tisio fforc?' yn gyflym wedi cyffroi.

Drafft terfynol:

Ychwanegu Mari yn yr olygfa.

Deialog Dyfrig ac Angharad Mair.

Safai Angharad Mair gyda meic yn ei llaw yn barod i gyflwyno i'r camra.

Safai Mari yng nghanol y cae gyda'i phen wedi gludo i'w ffôn, yn amlwg ddim eisiau bod yno.

Angharad mair: (Dechreuai gerdded tuag at Mari yn hamddenol) Wel mai wedi bod yn ddiwrnod a hanner heddiw yma yn Llanelli. Braf ydi gweld y maes yn byrlymu gyda phlant a phobl ifanc Cymreig. Ond ymhlith nhw i gyd mae un hogan ifanc pwysig iawn, sydd wedi bod yn brysur yn cadw trefn ac yn gwneud yn siwr fod pob dim yn llifo yma ar y maes. Mari, sut wyt ti?

Rhoi'r ffôn i gadw yn gyflym.

Mari: Ie, dwi'n iawn diolch.

Ymddangosai Dyfrig yn y pellter yn edrych ar goll ac wedi drysu'n lân, methu deall sut bod y cae mor lân.

Gwisgai gap ffarmio, crys a gwasgod schoffel, jeans glas sydd wedi 'ffadio' a welis budur ar ei draed. (/Dillad carpiog, bler).

Dyf: (Dweud wrtho'i hun) Iesgob, sa' ti'm yn deud bod gwartheg di bod ar y cae 'ma.

Estynai dyfrig fap o'r maes allan o boced ôl ei drwsus. Edrycha'n ddryslyd ar y map.

Angharad: Felly dwed wrtha i Mari beth ydi dy rôl di wythnos yma ta?

Mari: Wel, mae mam, cyfarwo, cyfafu, cyfarwyddwo..

Angharad: Cyfarwyddwraig?

Mari: Cyf-ar-wydd-wraig yr Eisteddfod yn sal, felly dwi 'di cal y fraint o fod yma yn trio cadw trefn 'cuz' doedd yna neb arall hanner call ar gael i ddod i 'covero' hi.

Dyf yn dod a trafu ar sgwrs y ddwy.

Dyf: Sgiws mi del, da chi'n gwbo lle ma'r bychod Hereford?

Angharad: Y.. Waw, da iawn ti am helpu dy fam! Chware teg, yn sicr mae dy fam wedi gwneud rhyfeddodau i Gymru fach dros y blynyddoedd. A mor braf ydi dy weld di yn dilyn ol troed dy fam. Pwy a wyr, ella mai ti fydd ein cyfarwyddwr nesaf ni, beth wyt ti'n feddwl?

Mari: Mari'n chwerthin yn lletchwith. Sai'n credu?

Dyf: Sgiws mi, fedrwch chi ddweud wrtha i pa ffordd mae'r gwartheg Hereford os gwelwch y dda?

Mari: Ti be?

Angharad: Wel mae hi wedi bod yn lyfli cael sgwrs hefo ti Mari. A dwi'n siwr cawn ni sgwrs arall flwyddyn nesa yn yr Eisteddfod yn Llanrwst.

Dyf: Esgus odwch fi?

Angharad yn gwenu'n lletchwith am y ychydig eiliadau ar y camra. Yna'n stopio gwenu yn syth.

Angharad: Be' da chi 'isio ddyn!? Naethoch chi ddim sylwi ein bod ni ar ganol ffilmio?

Dyf: Yn be? Yda chi 'di gweld yr Hereford swel brown a gwyn?

Angharad yn edrych arno'n ddi-glem.

Dyf: Hereford. Math o wartheg. Fy hoff fath i chi gal dalld. Mae nhw'n biwcsiwr wir i chi.

Angharad: Ymmm..Naddo sori, ha ha ha.(chwerthin yn lletchwith gan edrych ar ei thîm camerau wedi'i rhyfeddu)

Dyf: Well am siom! Oherwydd eu bod nhw'n tarddu o Swydd Henffordd yn Ne-Orllewin Lloegr ma siwr ia… Ond na fo, dwi'm yn gweld bai arnyn nhw am wahardd pob dim i wneud hefo Lloegr yn y lle ma, ar ôl pob dim ma'r Saeson yn gwneud i'n gwlad fach ni… Ia Duw. Da chi'm yn digwydd gwbod pa ffordd ma'r Defed ta?

Angharad: Does dim anifeiliad yn yr Eisteddfod. Dwi'n meddwl eich bod chi wedi drysu. Cystadlu, diwylliant ac adloniat ydi esteddfodau. Dim rhyw ffars amaethyddol.

Dyf: Ffars!? Wel yr hwch ddiymhongar. Dim anifeiliaid. Da' chi'n deutha fi bod 'ne ddim anifeiliaid o gwbl yr y lle ma?

Angharad: Wrth gwrs ddim y twmffat. Sgen ai'm amser i'r lol 'ma, dwi'n ffilmio mewn dau funud.

Cerddai Angharad i ffwrdd yn gyflym wedi colli mynedd.

Dyf: O mam bach. O mam bach. O mam bach. (Panicio) Dim anifieiliaid mewn gwyl Gymreig. Wel am blydi nuts. A finna di tau crocbris i ddod i mewn. Gwarthus.

Edrychai Dyfrig ar y Map Unwaith eto.

Lot o stondine gwahanol yma, ond dim un i'r anifeiliaid.

Saib.

Www merched y wawr, ella a'i i fane am bach o TLC gan Dilys a Brenda. Gawni weld os fydd nhw'n ffruo drostai heddiw fel odda nhw penwsos dwetha'n capal, hahaha!

Tisio fforc? Mi ydwi angen fforch wair newydd fel man digwydd. Iesgob ma 'freebies' fama lot gwell na rei'r sioe fawr!

Dechreua Dyfrig gerdded am standin 'Tisio fforc?' yn gyflym wedi cyffroi.

Golygfa y pafiliwn

Angharad mair: Ymlaen awni i gystaleuaeth y grŵp llefaru cynradd rwan.

saib.

Os allwn i gau drysau'r pafiliwn cyn cynted a phosib, a phawb i gymryd y sedd agosaf osgwelwch yn dda.

Sh Sh Sh Sh. Os fedrwn i dawelu i ni gael bwrw mlaen gyda'r gystadleuaeth nesaf. Rhaid rhoid dangos pob chwre teg i'r cystadleuawyr sydd wedi bod mor brysur yn dysgu'r darnau hirfaith a heriol yma.

Pobl yn dal i siarad yn y gynulleidfa.

Os fedrwn i gael tawelwch yn y pafiliwn plis!

Diolch yn fawr.

Mae'r criw wedi bod yn aros yn amyneddgar yn y cefn ac mae nhw'n barod i ddod ymlaen. Rhowch groeso i ysgol Twm or pans.

Y grŵp yn cerdded mlaen. Pan yn cyrraedd y mic yn ffysian eu bod yn sefyll yn y man cywir am ychydig. Un plentyn yn chwifio at ei rhieni sy'n y gynulleidfa.

Grŵp yn cymryd anadl ddofn gydai gilydd.

Yr Wŷau

Grwp yn cymryd anadl ddofn arall gyda'i gilydd.

Un bach, un mar, un yn disgyn ar y llawr!

Un melyn wŷ dwbl, rhaid ei gade allan o drwbl!

Wŷau sy'n sgrechian a chrio,

gan sgio ar draws y badell ffrio.

'Di sgramblo, 'di botcho, a'i homletio.

Mmm!

Ond o! Yn y pellter, gwelwn yr un wŷ angof.


Ye un wŷ unig.

Y grŵp yn edrych yn prowd iawn ac yn gadael y llwyfan.

Angharad M: Waw, am ddarn sydd wir yn cyffwrdd â'r galon, wedi'i chyfansoddi gan Myrddin Ap Dafydd. Mae'n siwr eich bod chi wedi fy nghlywed yn dweud hyn lawer gwaith o'r blaen, ond oo mae'n braf gweld yr holl blant yn llewyrchu ar y llwyfan dalent sydd gennym ni.

Drafft cyntaf ac yr unig ddrafft; Heb ei ddefnyddio yn y sioe.

Ysgrifennu caneuon sioe gerdd gomedi



Gwylio enghraifft o gan gomedi: https://youtu.be/i_D-fQ68LM8?si=XJrBeICfvdXUI0yp
Defnyddiol; Ysbrydoliaeth + dangos bod y caneuon yn gallu bod mor boncyrs a da' ni eisiau iddynt fod.

Rhannu caneuon allan- Dwi'n cael y dasg o ysgrifennu'r gan agoriadol!

1. Hel syniadau/ pethau i'w gynnwys yn gân:

Cytadlu efo'r cor.

Os tin lwcus gei di fod ar y teli.

Dafydd iws.

Dwi'n 50 a dal yn mwynhau boogie yn Maes B.

Shit and vomit yn y porterloos.

Pris peint yn £6.50

Pentref bwyd.

Freebies.

Caravanio.

Paned mwya amazing yn WI, o na sori merched y wawr.

Bean bags Pabell Maes B.

Teganau Tina.

Myrddin Ap Dafydd.

Selfie efo Dona Direidi.

Ciwio am docyn, 30 punt, bagen!

Ty Gwerin hefo Gwilym Boen Rhys.

Gadael y plant yn pentre plant trwyr dydd.

Maes D, dysgwyr.

O tin angel, ond tin rhegi'n mhob brawddeg.

Dyma lle dwin anelu

methu aros i gal drink yn maes b,
ella un neu ddau neu dri.

bach o bach o hwne?

morgan elwy'n canu am chacenne a bach o bach o hwne.

pwy a wyr beth sydd yn ein cacene.

dyf: tocyn am ddim?

Dyf

Penill. Rhys.

Drafft 1af:

Can agoriadol

Ma'r eisteddfod yn shit.

Nachdi ma'r sdeddfod yn sick.
Agora dy lygaid y prick.
Stopia fod yn real dick.
Cyn i ti gal stick.

Bod yr eisteddfod yn wych.

Tim yn gwbod am be tin siarad am dan.
Yr Eisteddfod ydi'r peth gorau ny byd i gyd.
Dwi'n dod bob blwyddyn am wythnos yn y garavan,
efo'r gwr, y plant, y gath a nodi sgodyn aur o steddfod llanymddyfri.

Os main glawio, diom bwys rho dy welis pink ymlaen.
Stim bud gwell i'r enaid na cerdded trwy'r mwd ar baw.
Ac os w tisio grabia poncho o stondin s4c.

Steddfod, alli di ddod am ddiwrnod, neu am yr holl wythnos (fel fi.)
Ooo dwisio fo bara am pythefnos.
Steddfod,crwydro, sgwrsio a joio
A gwario pres yn ddiachos.
Hei Hei Hei,Steddfod, does dim diflastod mond undod.
llawn menywod priod.
A bwystfilod.

Dawsio efo cyw a dona dirieidi ydi'r hilight (uchafbwynt)i fi.
Cal catch up hefo'r archdderwydd yn y bar gwyrdd.
Dwi'n mynd i maes B i golli fy virginiti, dwi yn 16 peidwch a poeni, dim gair i fy rhieni.
Llofnod

2il ddrafft:

Mari	Pam nes i gytuno i neud hyn i mam? Ma' mhen i'n teimlo fel fflam. Rioed 'di teimlo mor wahanol ar fws wennol. Oni'n iawn, ma Mame'r Eisteddfod yn uffernol.
Deialog dros y cyfeiliant;	
Nerys	Erin! Wel sut wyt ti cariad? Iesgob ti wedi tyfu!
Glenys	Odde ti'n groten fach tro dwetha i fi dy weld di!
Nerys	Ia, tydw i heb dy weld di ers blynyddoedd dwi'n siwr!

Glenys	Wel, dwi heb dy weld di ers cyn côf amen!
Erin	(yn lletchwith) Haia.
Linda	Da 'chi yma am yr wythnos?
Dyfrig	Na, am y diwrnod 'chi.
Linda	Dani'n dod bob blwyddyn am wythnos yn y garavan. Y Gwylie gore gei di dwi'n gaddo ar fywyd fy mam. Y plant yn cystadlu a fi'n ei hyffroddi. Well nte, sdim isie dim mwy na hynny!
Pawb	Steddfod! Alli di ddod am ddiwrnod, Neu am yr holl wythnos (fel fi.) Ooo dwisio fo bara am pythefnos. Hei Steddfod! crwydro, sgwrsio a joio. A gwario pres yn ddiachos. Does dim diflastod mond undod! Hei! Hei! Hei! Steddfod
Erin	Dwi methu aros i ffiendio dyn sy'n fy ngwerthfawrogi. Dim fel rhys, yr hen gachgi. Sa fo'n o'n class, cal actually joio sex at last A live music yn chware full blast.
Glenys Ty Capel a Nerys	Dwi di bod yn gweithio'n pabell MYW Ers y flwyddyn 1962. Cael fy ngamol ir cymyle. Am neud y welsh cakes gore. Er bo fi bron yn seventy; dwi'n joio bwgi a chal amser joli'n grando ar morgan Elwy. Ia, Steddfod ydir peth gora yng nghymru
Pawb	Steddfod! Alli di ddod am ddiwrnod, Neu am yr holl wythnos (fel fi.) Ooo dwisio fo bara am pythefnos. Hei Steddfod! crwydro, sgwrsio a joio. A gwario pres yn ddiachos. Does dim diflastod mond undod! Hei! Hei! Hei! Steddfod Key change

Steddfod! Alli di ddod am ddiwrnod,
Neu am yr holl wythnos (fel fi.)
Ooo dwisio fo bara am pythefnos.
Hei Steddfod! crwydro, sgwrsio a joio.
A gwario pres yn ddiachos.
Does dim diflastod mond undod!
Hei! Hei! Hei! Steddfod.

Sesiwn gyda Chris ar y piano:
-Rhannu fy syniadau; Eisiau cyfleu'r cynnwrf ar y dechrau gyda chyfeiliant cyflym, stacato, bywiog.
-Dod i fyny hefo alaw fy hun, yna Chris yn creu cyfeiliant iddo.
-Hapus gyda'r alaw, wedi cyflawni'r nod= iddo fod yn 'up beat' a 'catchy'.
-roedd rhaid i mi addasu rhythm yr alaw ambell i waith er mwyn sicrhau fod y geiriau yn 'ffitio.

Drafft Terfynnol:

-Ychwanegu deialog ar ddechrau'r gân.
-Newid/ cwtogi 'lyrics' y gan fel ei fod yn cyd-fynd hefo'r cyfeiliant.
-Angen gwneud yn siwr fod yr un nifer/ nifer tebyg o guriadau ymhob Brawddeg.

Yr holl gymeriadau ar fws wenol sydd ar y ffordd i'r Eisteddfod.

Mae pawb (heb law Mari) yn gyffro i gyd, methu aros i gyrraedd yr Eisteddfod.

Edrycha Mari allan o ffenest y bws yn edrych yn anhapus a diflas. Bob hyn a hyn edrycha o'i chwmpas a birnadu'r pobl o'i hamgylch ('freaks' yr 'Eisteddfod').

Pawb yn mynd ar y bws gan wthio ei gilydd/ straffaglu i gael sedd. Rhai yn eistedd a rhai yn sefyll (cyfleu pa mor llawn ydi bysiau wenol yr Eisteddfod a pha mor ddi-amynedd a di-gywilydd gall rhai Cymru fod).

Cymriadau yn gwneud 'small talk' ymysg ei gilydd. (Pawb yn nabod pawb yng Nghynru).

Linda O na ddim traffig! Bob blydi blwyddyn! Ma'r plant f'angen i yn y steddfod rwan! (Panicio).

Linda yn cael ei ffôn allan o'i phoced ac yn ffonio Branwen.

Haia blodyn. Sori cariad dwi'n sownd mewn traffic, typical! Felly rhaid i chi gynhesu'ch lleisia' efo fi dros y ffôn oce? C'mon ti'n gwybod faint mor bwysig ydi hyn i dy 'vocal folds' di, i chi gal ennill pob gystadleuaeth leni hefyd nte! Reit ar ôl fi, (Arpeggio) la la la la la la la. *saib*. Li li li li li li li. *Saib*. Lw lw lw lw lw lw lw.

Mari Excuse me, da chi'n meindio peidio? Dwi'n trio gwrando ar 'music' yn fama!

Linda (*Wedi syfrdanu*) Esgusodwch fi! Na, mae gan fy mhlant i ragbrawf mewn hanner awr! Sori blantos daliwch i fynd. Hi hi hi hi hi hi hi. Helo? Branwen? Branwen? O na, dim signal hefyd!? Ydi'r 'steddfod byth yn gwrando ar fy nghwynion i?

Mari'n giglo.

Y gan yn dechrau:

Mari Pam nes i gytuno i neud hyn i mam?
Ooo dwi di cael cam, damn!
Rioed 'di teimlo mor wahanol ar fws gwennol.
Oni'n iawn, ma Mame'r Eisteddfod yn uffernol.

Deialog dros y cyfeiliant;

Nerys	Erin! Wel sut wyt ti cariad? Iesgob ti wedi tyfu!
Glenys	Odde ti'n groten fach tro dwetha i fi dy weld di!
Nerys	Ia, tydw i heb dy weld di ers blynyddoedd dwi'n siwr!
Glenys	Wel, dwi heb dy weld di ers cyn côf amen!
Erin	(yn lletchwith) Haia.
Linda	Da 'chi yma am yr wythnos?

Dyfrig	Na, am y diwrnod 'chi.
Linda	Dani'n dod bob blwyddyn am wythnos yn y garavan. Gwylie gore gei di dwi'n gaddo ar fywyd fy mam. Y plant yn cystadlu a fi'n ei hyffroddi. Well nte, sdim isie dim mwy na hynny!
Linda	Steddfod! Alli di ddod am ddiwrnod, Neu am yr holl wythnos (fel fi.) Ooo dwisio fo bara am pythefnos. Hei Steddfod! crwydro, sgwrsio a joio. Gwario pres yn ddiachos. Does dim diflastod mond undod! Hei! Hei! Steddfod!
Erin	Methu aros i ffiendio dyn sy'n fy ngwerthfawrogi. Dim fel rhys, yr hen gachgi. Sa fo'n o'n class, actually joio sex at last A live music yn chware full blast.
Glenys Ty Capel a Nerys	Dwi di bod yn rhan o gymuned MYW ers1962. Cael fy ngamol ir cymyle am neud y welsh cakes; gore. Er bo fi bron yn seventy; dwi'n dal I joio bwgi, Cal amser joli'n grando ar morgan Elwy.

Pawb

Steddfod! Alli di ddod am ddiwrnod,
Neu am yr holl wythnos (fel fi.)
Ooo dwisio fo bara am pythefnos.
Hei Steddfod! crwydro, sgwrsio a joio.
Gwario pres yn ddiachos.
Does dim diflastod mond undod!
Hei! Hei! Hei! Steddfod

Key change

Steddfod! Alli di ddod am ddiwrnod,
Neu am yr holl wythnos (fel fi.)
Ooo dwisio fo bara am pythefnos.
Hei Steddfod! crwydro, sgwrsio a joio.
Gwario pres yn ddiachos.
Does dim diflastod mond undod!
Hei! Hei! Hei! Steddfod.


Cyfrannu syniadau a geiriau tuag at ganeuon fy nghyd ddisgyblion:
-Dod I fyny hefo'r ymadrodd 'Maen deimlad nid trwydded'= cân diweddglo.
-'Eu stopio rhag diddannu' 'stopio diwylliant Cymru, traddodiad fy nheulu' 'rhaid I mi sefyll yn y bwlch' 'fydd na ddim yfory, mae popeth yn dibynnu arna i' = cân Linda


<u>Wythnos R & D</u>




Bues yn brysur yn ail-ddrafftio golygfeydd a'r gân agoriadol yn ystod yr wythnos hon yn bennaf.

Buom yn gweithio allan pa waith oedd wedi cael ei gwblhau a'r hyn oedd angen cael ei wneud:(cylch glas= wedi'I gwblhau)









Angen i mi barhau i weithio ar y gân agoriadol dros yr haf.


Gwylio clip o'r seronomi gadeirio i ddyfnhau dealltwriaeth ac i sbarduno syniadau:





(BBC Cymru Fyw, 2012)

Strwythuro'r sioe gerdd:









Angen ysgrifennu golygfeydd er mwyn cyfuno y rhai sydd hefo ni gyda'i gilydd:

Golygfa Linda'n ffonio Branwen yn ceisio ei pherswadio i gystadlu ac yn ffonio Newyddion s4c+ golygfa Angharad Mair a Linda'n rhedeg ar ôl Mari'n gofyn cwestiynau:

Drafft 1af a'r drafft terfynol!

Newyddion s4c a Linda yn cwestiynu Mari

Linda ac Angharad Mair yn cerdded yn gyflym yn edrych yn 'stessed' gan edrych allan am Mari.

Linda: Dyna hi! Mari! Tyd yma'r sguthan!

Mari'n dechrau cerdded i ffwrdd yn gyflym. Angharad Mair a Linda yn rhedeg ar ei hôl.

Angharad Mair gyda meic yn ei llaw.

Angharad Mair: Angharad Mair ydw i, oddi ar ' Y Byd ar Bedwar'. Mae yna gyhuddiadau wedi cael ei wneud yn eich erbyn chi. Dyma gyfle i chi nawr i ateb y cwestiynau.

Linda: Be ti'n meddwl ti'n neud yn herwgipio'r Eisteddfod! Pwy ti feddwl wyt ti? Sais ia!? Eglura dy hun!

Mari'n anwybyddur ddwy, yn dweud dim, ac yn parhau i gerdded.

Angharad Mair: Pam nad ydych chi eisiau ateb y cwestiynau? Cyfle i chi brofi eich hun yw hwn Mari. Pam nad ydych chi eisiau siarad 'da fi? Beth rydych chi wedi neud 'da'r cleddyf Mari?

Mari'n rhedeg i ffwrdd.

Angharad Mair yn troi i wynebu'r camera (y gynulleidfa).

Fel y gwelwch, doedd ganddi ddim gair i ddweud. Dim ond trio eto gallwn ni wneud i ddod i wraidd y trychineb yma.

Linda: Reit, cer di ffordd yna, ac mi a i fynd y ffordd yma, i ni ffonio ein gilydd os yn dod o hyd iddi.

Angharad: Syniad da.

Drafft 1af

Linda yn cysylltu hefo'r wasg

Rheda Linda ymlaen yn gyflym mewn panig gyda'i ffôn yn ei llaw.

Linda: Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw, deg. (Anadl ddofn) Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw, deg. (Anadl ddofn) Anadla Linda fach, anadla. I mewn (cymryd anadl ddofn trwy ei thrwyn yn araf), ac allan (chwythu'r anadl allan drwy'i cheg). Reit (yn slapio ei gwyneb ei hun), pull yourself together Linda! Rhaid achub yr Eisteddfod, a rhoi stop ar y mochyn Mari 'na.

Linda'n dechrau dialu rhif newyddion s4c i mewn i'w ffôn.

(Yn siarad ar y ffôn hefo s4c) Helo? Newyddion s4c? O diolch i dduw. Grandewch, mae yna broblem anferthol. **Anferthol**. (anadl ddofn) Mae yna ferch o'r enw Mari ceisio herwgipio'r Eisteddfod. Ia, 'Hijackio'r' Eisteddfod! Ma' hi'n stopio plant Cymru rhag cystadlu ac mai wedi dwyn cleddyf yr orsedd!!! Fyddwch chi yma ar unwaith? O diolch i Dduw, mi wna' i eich cyfarfod chi yn y mynedfa am 1 o'r gloch. Iawn. Ta ra, ta ra.

Linda'n rhoi'r ffôn i lawr. Yna rheda i ffwrdd yn gyflym mewn panic.

-Ychwanegu sgwrs ar y ffôn efo Branwen.
-Ychwanegu'r gân.

Strwythr yn fras;

Linda yn ffonio Branwen i gystadlu

Branwen yn deud na.

Plis nei di gystadlu.

na

Reit. Os faddai Mari ond wedi cytuno efo fi. Be andros sydd wedi digwydd i'r steddfod ma. Reit rhaid achub...

Drafft terfynol:

Linda Haia,fi su ma. Plis, plis nei di gystadlu Branwen? I mam?

Branwen (ar y ffôn) Na.

Linda O Plis cariad. 'Da ni wedi gweithio'n rhy gadel ar y darnau 'ma er mwyn i ti beidio cystadlu. Paid a bod yn wyrio rwan pwt.

Branwen Na, dwi ddim isio a dwi ddim yn mynd i gystadlu, oce!

Branwen yn rhoi'r ffôn i lawr ar Linda.

Linda Branwen? Branwen! *Linda'n gwylltio ac yn gweiddi.* Aaa.
Os fyddai Mari ond wedi cytuno hefo fi! *Linda'n dechrau 'upsetio.* Be, andros,sydd, wedi, digwydd, i'r, Eisteddfod, 'ma.

Linda'n dechrau anadlu'n ddwfn i geisio rheoli ei theimladau.

Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw, deg. (*Anadl ddofn*) Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw, deg. (*Rhyddhau'r anadl*). Reit (*yn slapio ei hun yn ei gwyneb*), pull yourself together Linda! Rhaid achub yr Eisteddfod, a rhoi stop ar y mochyn Mari 'na.


Can Linda'n dechrau:

Linda'n dechrau dialu rhif newyddion s4c i mewn i'w ffôn.

(*Yn siarad ar y ffôn hefo s4c*) Helo? Newyddion s4c?


Linda'n pigo ei bagiau I fyny ac yn cerdded i ffwrdd yn gyflym mewn panic yn son am Mari ar y ffon.

Creais restr o'r holl gymeriadau:



Rhoi'r holl sgript at ei gilydd.

Darlleniad cyntaf o'r sgript:



Rhannu'r cymeriadau rhwng pawb:

Darllenais rhan Rhys, Sian a Linda, ac arbrofi drwy ddarllen rhan Daf a Nerys bod yn awr ac y man.

Dyma ffordd dda i'n darlithydd ein castio yn y sioe, wrth iddo brofi pwy sy'n gweddu pa gymeriad orau.

Cefais fy nghastio i chwarae rhan Linda, Sian (Mam Mari) a Rhys= hapus iawn.

Sylweddolais nad oedd gan Linda unawd yn y sioe, felly es ati i hel syniadau. Creu awyrgylch Wicked oedd y nod. Llwyddo i wneud hyn o dan arweiniad Ela.

Syniadau 'lyrics' a chaneuon eraill ysgrifenais na chafodd eu defnyddio:

Glenys a Nerys:

Wedi bod yma ers blynedde
Yn serfio'r tade efo paneidie
Cael fy ngamol ir cymyle
Am neud y paneidie gore.

Tyd ir babell
i weld beth ydir safon ore.

Dwin dod ir steddfod i joio er
Dwin cal job bihafio.
Methu la'n a stopio sgwrsio a fflyrtio.
Hefo pob un dyn dwi'n basio.

Dwin stiwardio am ddiwrnode
Gwylio pawb yn neud ei gore
Cadw trefn

Plant Linda:

Teuly Jones'

Teulu Jones' ydan ni.
Sydd hefo diawl o dalent wir i chi. / Neu diawl o dalent gennym ni.
Cystadlu rownd y ril.
Ac ennill pob un ffwl.

Mam sy'n ein hyfforddi.
Rhaid ymarfer pob un dydd.
Mai'n mwynhau mwy na ni.
I fod yn onest sgenaim diddordeb mewn canu na llefaru.
Sgen nim dewis ond neud o/ cystadlu rili.
Neu gewnim brecwast, cinio na swper ganddi.


Dwin mynd o Steddfod i Steddfod.
Yn gobeithio ddawl o byth a dod i ben.

<u>Tair wythnos o flocio'r sioe gerdd gydag arweiniad ein cyfarwyddwr; Sara Lloyd</u>

-Mynd i Stiwdio Theatr i ystyried y ffyrdd gallwn ddefnyddio'r ystafell i greu llwyfan. Buom yn arbrofi gyda chadeiriau i greu llwyfan prosceniwm, llwyfan 'Thrust' a llwyfan gylch gan ddefnyddio'r ystafell ar ei hyd a'i led.

-Penderfynem ddefnyddio'r ystafell ar ei hyd ac ar lwyfan prosceniwm = Llwyfan yn hirach; mwy o ofod i weithio hefo + caniatáu i ni ymgysylltu yn fwy hefo'r gynulleidfa wrth iddynt fod yn agosach + sicrhau bod y gynulleidfa'n gallu gweld mwy o'r hyn sy'n digwydd gan nad oes lefel i'r llwyfan.

Trafod themâu ein sioe gerdd a dewis y themâu pwysicaf yn ein barn ni gan newid lleoliad y nodyn gludiog ar y wal




Darllen trwy'r sgript ac anodi rhai digwydiadau:



Cyfrannu tuag at syniadau blocio/ cyfarwyddo.

-Cyfarwyddais fy nghan 'Steddfod'- Creu siap bws ac i'r bws stopio cyn i'r gan ddechrau.
-Cyfarwyddo symudiadau'r ddawns hefo Becky.
-Cyfarwyddo rhai symudiadau yn 'Dwi yma'.
-Cyfarwyddo 'bridge' can 'Bechgyn Cymraeg'
-Cyfarwyddo can fy nghymeriad i; Linda.

Golygu'r sgript:



Ysgrifennu darn i gael y gynulleidfa'n rhan o'r seronomi gadeirio;

> Annwyl gyfeillion. Y fraint mwya gen i yw eich gwahodd i fod yn rhan or orsedd yn y seromoni gadeirio. O dan eich cadeiriau sylwch fod yna benwisg. Estynwch y benwisg ai roi ymlaen ai yddasu fel bod angen. Rydych ynawr yn awlodau or osedd- dros dro. Gadewch i ddechrau gan roi croeso cynnes ir archdderwydd.

Ysgrifennu synopsis fy hun + cyfrannu at y synopsis terfynnol:

Synopsis i roi ar wefan docynnau;

Dewch i fwynhau ein sioe gerdd wreiddiol Gymraeg ni; Mes ar y Maes. Mari sy'n ein tywys o amgylch faes yr Eisteddfod, lle dowch o hyd i lond llaw o gymeriadau gwahanol. Yn wir nid oes un ffordd i fod yn Gymraeg.

Dod a gwisg a phrops i mewn i'w defnyddio:

Rhestr gwisg a props i ddod mewn:
-Het bwced
-Doc, Martin Boots
-Jaced Nike i Rhys
-Bag i erin
-Bag Ikea
-Cwpan Steddfod
-Trainers samba

Trafod gwisgoedd hefo'n steilydd: Chloe.
-Egluro'r cymeriadau + sut fath o le ydi'r Eisteddfod
-Dangos enghreifftiau o wisgoedd mamau steddfod a bechgyn Cymraeg yn Maes B iddi:





Lluniau o'r 'dress run':









gwrthod- angen bod ochr arall (stage L)

Ar ol can branwen off stage Left

Notes ar ol dress run

Trwy'r cystans du a nol.
Dechrau ar nodyn uwch

Geiro- Plant fy angen i

Danin dod bob blwyddyn- Ir garafan

Dod mewn yn gynt ir olygfa "reit diwrnod prysur heddiw"

Gafael ar branwen

Ractio ir slap

Geiro yn y gân

Cader gwyn yn y cadeirio





(Nick Allso, 2023)

Proses greadigol

Cydweithio: Term canolog ’prosiect cyd-weithredol). Mae cydweithredu’n golygu rhannu llafur (cyd-lafur) ac felly mae ysgrifennu cydweithredol, yn ei ystyr ehangaf, yn golygu cyd-awduro testun gan ddau neu fwy o awduron (Storch, 2013, t.4).

Y gofynion ar gyfer y modiwl hwn oedd ysgrifennu sioe gerdd gomedi Gymraeg gyda chriw o ddisgyblion a’i berfformio’n fyw o flaen cynulleidfa. Yn ystod y broses o greu, bues yn brysur yn gweithio’n unigol, fel pâr ac fel grŵp o chwech yn hel syniadau, ymchwilio, ysgrifennu sgriptiau a chaneuon yn ogystal â chyfarwyddo. Cefais ddarlithoedd wythnosol gyda Llinos Mai o fis Medi hyd at ganol fis Tachwedd yn cyfansoddi’r sioe. Nid oedd posib cael neb gwell fel darlithydd wrth i’w chynyrchiadau Anthem (2022) a’i drama radio ‘Harri Parris’ (2015-2017) brofi ei bod yn llewyrchu mewn ysgrifennu comedi. Yna treuliais dair wythnos gyda’n cyfarwyddwr, Sara Lloyd sydd wedi cyfarwyddo sawl cynhyrchiad proffesiynol megis sioe gerdd ‘Nyrsys’ (2018) a’r rhaglen deledu ‘Anfamol’ (2023) . Braint oedd cael gweithio gyda dwy mor brofiadol a thalentog. Yn bersonol, yr hyn roeddwn yn gobeithio ei gyfrannu’n bennaf yn y broses o greu oedd i ysgrifennu darnau o safon rydw i’n falch ohono. Ar ddechrau’r modiwl rwy’n cofio teimlo’n bryderus am y ffaith ein bod yn ysgrifennu sioe gomedi, oherwydd fy mod yn dueddol o ysgrifennu darnau fwy seriws a thrist o ddewis. Yn academaidd, roeddwn yn gobeithio i fagu hyder mewn ysgrifennu darnau a chaneuon gomedi yn ogystal â ehangu fy nealltwriaeth o’r broses cyfarwyddo, gan nad oedd gen i lawer o brofiad yn y meysydd yma o gwbl.

Buom yn treulio amser i ddod i adnabod ein gilydd yn dda ar ddechrau’r tymor wrth i bawb rannu ffeithiau personol amdanyn nhw ei hunain i’r grŵp. Roedd yn hanfodol wrth i ystadegau ddangos bod ‘pobl syn adnabod ei gilydd yn dda, yn llawer mwy tebygol o gydweithio'n dda’ (Mcfarlin, 2019). Un o’r tasgau cyntaf wnaethom oedd cyflwyno a thrafod testun rydym yn angerddol amdano am funud heb seibiant o flaen y grŵp. Trafodais am yr argyfwng digartrefedd syn y byd. Ffordd dda i’n gorfodi i siarad o flaen y dosbarth. Buom hefyd yn treulio amser yn ysgrifennu tudalennau rhydd yn ystod y darlithoedd cyntaf. Dwi’n cofio meddwl, pam ar wyneb y ddaear rydym ni’n gwastraffu amser yn gwneud hyn!? Buan iawn sylweddolais ei fod yn ddefnyddiol a’i fod er mwyn ein profi ei fod yn hawdd creu darn diddorol os ydw i'n peidio gorfeddwl yr hyn rydym yn ysgrifennu. Cadwais hyn mewn meddwl wrth fynd ati i ysgrifennu monolog am y tro cyntaf a theimlaf oherwydd hyn roeddwn wedi creu monolog naturiol a doniol sy’n hawdd ei ddarllen. Hawdd oedd ysgrifennu’r fonolog gyntaf wrth i bawb dderbyn ffynhonnell sbardun fel ysbrydoliaeth. Clip o bobl yn cydganu’r gan ‘I bob un sy’n ffyddlon’ ym mhafiliwn yr Eisteddfod (BBC,2018) derbyniais i.

Anoddach oedd mynd ati i ysgrifennu’r ail fonolog heb ysbrydoliaeth, ond roedd y dasg datblygu cymeriad wir yn help. Wrth ateb 25 cwestiwn sy’n ymwneud a’r cymeriad roedd yn sicrhau fy mod yn bod yn fanwl ac yn benodol iawn gan ganiatáu i mi greu cymeriad difyr a arweiniodd tuag at greu monolog difyr. Oherwydd y canlyniad llwyddiannus defnyddiais y dull yma er mwyn dyfeisio sawl cymeriad arall wrth ysgrifennu a chreu cymeriadu, wrth iddo ganiatáu i mi adnabod y cymeriadau’n well. Un camgymeriad wnes wrth ysgrifennu’r ail

fonolog oedd ychwanegu deialog yn ei ganol. Dwi ddim yn siŵr sut wnes i'r camgymeriad yma, diffyg canolbwyntio efallai? Ond yn sicr wnâi i byth anghofio'r gwahaniaeth rhwng deialog a monolog rŵan; 'sef bod monolog yn araith gan un person tra bod deialog yn sgwrs rhwng dau neu fwy o bobl' (Pediaa, 2016).

Doedd dim amheuaeth ein bod am greu sioe syn ymwneud a'r themâu Cymru a Chymreictod gan mai dyma oedd y 'briff' a dderbynwyd. Felly, fel grŵp roedd rhaid dod i fyny hefo syniad cryf a phlot storïol, diddorol sydd yn ymwneud ar themâu yma. Buom yn trafod am ddarlith gyfan, gan ystyried y cymeriadau gwahanol sydd yng Nghymru, y cymunedau, lleoliadau, traddodiadau a mwy! Wrth wneud hyn daeth yn amlwg lle dylai'r sioe gael ei leoli; yr Eisteddfod Genedlaethol. Roeddwn o blaid hyn oherwydd fy mhrofiad o fynychu a chystadlu yn yr Eisteddfod ers yn ifanc iawn gwyddwn byddaf yn gallu cyfrannu llawer iawn i'r cynhyrchiad. Cytunodd bawb ar y lleoliad yma ar wahân i un myfyriwr, oherwydd ei diffyg profiad o'r maes. Trodd y drafodaeth letchwith yma'n un positif wrth iddo fod sbardun ar gyfer plot ein sioe! Dyfeisiais y cymeriadau Linda, Dyfrig, Angharad Mair a Beca Mai; pedwar cymeriad hollol wrthgyferbyniol. Yn sicr, Dyfrig oedd y cymeriad fwyaf rhwydd i ysgrifennu darn gomedi gan fy mod wedi magu ar ffarm laeth ac wedi dod ar draws ambell i gymeriad yn y diwydiant ffarmio!

Heb os, roedd gwario tair wythnos yn rhoi'r sioe ar ei draed o fewn un ystafell am pum awr a hanner bob dydd yn heriol ond o fewn fy ngallu. Cyfrannais syniadau yn ddyddiol tuag at y cyfarwyddo, er enghraifft golygfa'r bws a'r gan agoriadol yn ogystal â llinellau harmonïau yn y caneuon gyda chefnogaeth Christopher Fossey. Teimlaf roedd tensiwn yn dueddol o godi weithiau rhwng rhai myfyrwyr, yn enwedig yn y prynhawn, ond rwy'n falch i ddweud nag oeddwn yn rhan ohono.

Mwynheais y profiad o gyfansoddir gan agoriadol 'Steddfod' gyda Chris. Cymerodd y broses lawer hirach nag oeddwn wedi meddwl. Gofynnodd y dasg am lawer o amynedd. Roedd rhaid cymryd amser a meddwl yn ofalus am yr hyn roeddwn eisiau ei gynnwys a pha odlau oedd y rhai gorau i ddefnyddio. Gwnes i ail ddrafftio'r gan bum gwaith i gyd. Yn ogystal â hyn bues yn cyfrannu syniadau a geiriau i gan Linda â'r gan diweddglo 'Teimlad Nid Trwydded'.

Credaf aeth y ddau berfformiad o'r sioe yn wych, gydag ymateb y gynulleidfa'n amhrisiadwy. Llwyddais i reoli'r curiadau yn y rhannau doniol o fewn y sgript ac i bigo 'cues' i fyny'n gyflym gan ychwanegu bwrlwm yn ôl mewn i'r olygfa. Roedd y curiadau a ddefnyddiais yn gyflym neu'n araf, wedi'i "odro" er mwyn cael pobl i chwerthin. Rwy'n falch iawn o fy mherfformiadau'n chwarae rhan Linda a Rhys; dau gymeriad hollol wrthgyferbyniol. Pe bawn yn perfformio'r sioe eto byddaf yn sicrhau fy mod yn gwahaniaethu Sian a Linda yn fwy. Her oedd hyn, wrth i mi orfod chwarae dwy fam oedd yn 'rhwystredig' ac yn debyg iawn.

Rwy'n falch iawn o fy nghyfraniad i'r prosiect cydweithredol hon. Roedd fy mhresenoldeb yn wych, roeddwn yn troi fyny ar amser i bob darlith, yn rhoi cant a chant i mewn i bob darn o waith creais yn ogystal â chyd-weithio'n broffesiynol gyda phawb o fewn y tîm creu. Teimlaf yn fwy parod i fynd mewn i'r diwydiant ar ôl gadael y brif ysgol flwyddyn nesaf wedi gwneud yr asesiad hwn. Rhydd y profiad i mi o gyd-weithio gyda phobl newydd dros gyfnod hirdymor, ysgrifennu sgriptiau a chaneuon gomedi am y tro cyntaf, yn ogystal â dysgu sut mae mynd ati i greu cynhyrchiad proffesiynol a'i roi ar ei draed; sgil a fydd yn hwb anferthol wrth mi fynd ati i ddyfeisio fy mhrosiect unigol.

Rhestr Llyfryddiaeth:

Mwldan. “The Harri Parris: The Big Day HD.” *Www.youtube.com*, 2014, youtu.be/i_D-fQ68LM8?si=AWEiEWLOjjJHQMqs. Accessed 7 Dec. 2023.

BBC Cymru Fyw. “Seremoni’r Cadeirio.” *BBC Cymru Fyw*, 10 Aug. 2012, www.bbc.co.uk/cymrufyw/saf/19218021. Accessed 9 Dec. 2023.

Vogler, Christopher. *The Writer’s Journey : Mythic Structure for Storytellers and Screenwriters*. London, Pan Books, 1998.

BBC. “Https://Twitter.com/BBCWales/Status/1029053221925478401?Lang=En-GB.” *X (Formerly Twitter)*, 13 Aug. 2018, twitter.com/BBCWales/status/1029053221925478401?lang=en-GB. Accessed 9 Dec. 2023.

WAVDA. “Instagram.” *Www.instagram.com*, 9 Dec. 2023, www.instagram.com/p/C0oTG2YouQt/?igshid=MzRlODBiNWFlZA==. Accessed 14 Dec. 2023.

Theatr Genedlaethol Cymru. “Nyrsys.” *Theatr.cymru*, 2018, theatr.cymru/en/shows/nyrsys/. Accessed 13 Dec. 2023.

Wales Millennium Centre. “Heart, Humour and Catchy Songs – Llinos Mai on Anthem.” *Wales Millennium Centre*, 31 Jan. 2022, www.wmc.org.uk/en/news-and-features/heart-humour-and-catchy-songs-llinos-mai-on-anthem. Accessed 9 Dec. 2023.

admin. “Difference between Monologue and Dialogue.” *Pediaa.com*, 5 Mar. 2016, pediaa.com/difference-between-monologue-and-dialogue/. Accessed 10 Dec. 2023.

Neomy Storch. *Collaborative Writing in L2 Classrooms*. 2023. Multilingual Matters, 2013.

Mcfarlin, Kate . “The Advantages of the Teamwork Concept in Organizations.” *Small Business - Chron.com*, 5 Feb. 2019, smallbusiness.chron.com/advantages-teamwork-concept-organizations-56220.html. Accessed 10 Dec. 2023.

Rhestr Cyfeirnodi:

Vogler, Christopher. *The Writer's Journey : Mythic Structure for Storytellers and Screenwriters*. London, Pan Books, 1998.

BBC Cymru Fyw. “Seremoni’r Cadeirio.” *BBC Cymru Fyw*, 10 Aug. 2012, www.bbc.co.uk/cymrufyw/saf/19218021. Accessed 9 Dec. 2023.

Lluniau gan Nick allso, 2023.

Neomy Storch. *Collaborative Writing in L2 Classrooms*. 2023. Multilingual Matters, 2013.

admin. “Difference between Monologue and Dialogue.” Pediaa.com, 5 Mar. 2016, pediaa.com/difference-between-monologue-and-dialogue/. Accessed 10 Dec. 2023.

Mcfarlin, Kate . “The Advantages of the Teamwork Concept in Organizations.” *Small Business - Chron.com*, 5 Feb. 2019, smallbusiness.chron.com/advantages-teamwork-concept-organizations-56220.html. Accessed 10 Dec. 2023.